# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 20 Rhagfyr 2023

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Owain Roberts**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6388

SeneddCyllid@senedd.cymru

## Cofrestru (09.00 - 09.15)

## Rhag-gyfarfod Preifat (09.15 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.30) (Tudalennau 1 - 8)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd a 15 Tachwedd

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Papurau tystiolaeth yn cefnogi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 - 27 Hydref 2023**

(Tudalennau 9 - 10)

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan y Prif Weinidog: Adroddiad y Pwyllgor Cyllid yng Nghyfnod 1 ar y Bil Bwyd (Cymru): Argymhelliad 1 - 15 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 11 - 12)

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau: Sesiwn dystiolaeth ar gyfer Deiseb P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru - 22 Tachwedd 2023**

(Tudalennau 13 - 14)

**2.4 PTN 4 - Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 - Memorandwm Esboniadol Diwygiedig - 22 Tachwedd 2023**

(Tudalen 15)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.5 PTN 5 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Y Grant Setliad Refeniw - 29 Tachwedd 2023**

(Tudalen 16)

**2.6 PTN 6 - Bil Seilwaith (Cymru): Ymateb Llywodraeth Cymru - 1 Rhagfyr 2023**

(Tudalennau 17 - 22)

**2.7 PTN 7 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Datganiad o egwyddorion i gyrff a ariennir yn uniongyrchol - 14 Tachwedd 2023**

(Tudalen 23)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Sesiwn dystiolaeth 1

(09.30-11.00) (Tudalennau 24 - 81)

Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys

Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth

**Dogfennau ategol:**

Pecyn ymatebion i'r ymgynghoriad

FIN(6)-21-23 P1 - Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.00)

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25: Trafod y dystiolaeth

(11.00-11.15)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 11.36

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/13544

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio<br>Dr Kathryn Chamberlain, Archwilio Cymru<br>Ann-Marie Harkin, Archwilio Cymru<br>Kevin Thomas, Archwilio Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Cofrestru (09.00-09.15)**

**Rhag-gyfarfod Preifat (09.15-09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Adolygiad Annibynnol o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi - 18 Hydref 2023**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan Anabledd Cymru: Cymorth ariannol penodol i bobl anabl yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 - 19 Hydref 2023**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Cynllun Pensiwn yr Aelodau - 23 Hydref 2023**

**2.4 PTN 4 - Gwybodaeth ychwanegol gan Gomisiwn y Senedd mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 31 Hydref 2023**

**2.5 PTN 5 - Llythyr gan Archwilio Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 3 Tachwedd 2023**

**2.6 PTN 6 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) - 3 Tachwedd 2023**

## 3 Archwilio Cymru - Craffu ar Amcangyfrif 2024-25 a'r Adroddiad Interim 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru; Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru; a swyddogion Archwilio Cymru ar Amcangyfrif 2024-25 ac Adroddiad Interim 2023-24 Archwilio Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Archwilio Cymru - Craffu ar Amcangyfrif 2024-25 a'r Adroddiad Interim 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 6 Protocol Proses y Gyllideb

6.1 Trafododd y Pwyllgor bapur ar Brotocol Proses y Gyllideb a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ac ymgynghori â'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

## 7 Sefydlwyd Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid: Diweddariad

7.1 Trafododd y Pwyllgor y papur ar Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023

Amser: 09.30 - 12.17

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/13814) yn: [http://senedd.tv/cy/13814](http://senedd.tv/cy/13814)

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Jack Sargeant AS (yn lle Rhianon Passmore AS) |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad<br>Michael Kay, Llywodraeth Cymru<br>Mathew Xerri, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Cerian Jones (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Martin Jennings (Ymchwilydd)<br><br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br><br>Božo Lugonja (Ymchwilydd)<br><br>Yr Athro Ailsa Henderson (Cynghorwr Arbenigol) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat (09.15-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AS.

1.3 Roedd Jack Sargeant AS yn dirprwyo ar ran Rhianon Passmore.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Papur i'w nodi 1 – Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – 3 Tachwedd 2023**

**2.2 Papur i'w nodi 2 – Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd: Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) – 9 Tachwedd 2023**

**2.3 Papur i'w nodi 3 – Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd 2024-25**

**2.4 Papur i'w nodi 4 – Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Biliau Diwygio. Cwestiynau dilynol ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 8 Tachwedd 2023**

**2.5 Papur i'w nodi 5 – Llythyr gan Gomisiwn y Senedd: Diweddariad ar brisiad tair blynedd Pensiwn y Gwasanaeth Sifil – 13 Tachwedd 2023**

## 3 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24 gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru; a Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i:

- ddarparu nodyn ar y weithdrefn ar gyfer newid y Grant Cynnal Refeniw (RSG) o fewn blwyddyn ariannol, ac ynghylch a yw deddfwriaeth sylfaenol yn ofynnol ar gyfer y weithdrefn hon.

- ofyn i Weinidog y Gymraeg ac Addysg am nodyn ar y fformiwla ar gyfer dyrannu cyllid i ysgolion uwchradd, ac ar yr honiad y gall ysgolion o faint tebyg i'w gilydd weld gwahaniaeth amlwg yn eu dyraniad cyllid.

## Egwyl

## 4 Goblygiadau Ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ar oblygiadau ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) gan Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad; Michael Kay, Uwch Swyddog Cyfrifol y Bil - Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Etholiadau; a Mathew Xerri, Pennaeth Polisi Etholiadau, yr Is-adran Etholiadau.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Goblygiadau Ariannol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Diweddariad ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn 2023-24: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd.

## 8 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau): Papur ar y materion allweddol

8.1 Trafododd y Pwyllgor y papur materion allweddol ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

## 9 Gwaith craffu blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.

## 10 Craffu Blynyddol ar Waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Trafod yr adroddiad drafft

10.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytuno arno.

Eitem 2.1

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

27 Hydref 2023

Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25

Annwyl Peredur,

Diolch am anfon copi ataf o'ch llythyr ar 22 Medi at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y gwnaeth Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ei nodi yn ei gyfarfod ar 11 Hydref.

Fel y gwyddoch, trafodwyd cynnig y Gweinidog i ddatblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth i gefnogi'r broses o graffu ar y gyllideb yn Fforwm y Cadeiryddion ddydd Llun. Yn y Pwyllgor heddiw, trafododd yr Aelodau fy mwriad i ysgrifennu atoch gydag ymateb ffurfiol.

Er y cydnabyddir y gallai fod rhai buddion i gytuno ar linell sylfaen o wybodaeth i'w darparu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi craffu ar y gyllideb, fy marn i yw y byddai'n bwysig i'r llinell sylfaen honno beidio â chael ei gosod yn rhy isel. Dylid cydnabod mai Pwyllgorau unigol sy'n penderfynu yn y pen draw pa wybodaeth y mae angen i Weinidogion ei darparu. Fel y dywedwch yn eich llythyr, mae'n bwysig gwarchod rhag bod yn rhagnodol ynghylch y wybodaeth y dylid ei darparu.

Mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn sicr yn gwerthfawrogi cael gwybodaeth fanwl i gefnogi ei waith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, fel y dangosir gan y llythyrau cais am dystiolaeth gan Weinidogion a gyhoeddir yn ein agenda yr wythnos hon. Rydym yn chwilio am amrywiaeth o wybodaeth sy'n adlewyrchu'r ymatebion i argymhellion blaenorol

adroddiad ar y gyllideb; canlyniad ymgynghori â rhanddeiliaid a materion blaenoriaeth a godwyd ganddynt; yn ogystal â materion eraill sy'n deillio o'n gwaith craffu yn ystod y flwyddyn.

Gobeithio bod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/FM/MA/2299/23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

15 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

**Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Bwyd (Cymru): Argymhelliad 1**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i Argymhelliad 1 adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar Fil Bwyd (Cymru) Peter Fox AS.

***Argymhelliad 1****: Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, yn y dyfodol, yn ymrwymo i gynorthwyo Aelodau unigol a/neu Bwyllgorau sy'n cynnig deddfwriaeth drwy ddarparu gwybodaeth ariannol berthnasol cyn cyflwyno Bil i sicrhau bod costau mewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mor gynhwysfawr a manwl â phosibl*.

Yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at yr ohebiaeth a gyfnewidiwyd yn ystod y Bumed Senedd ar Fil Awtistiaeth (Cymru). Hoffwn ailadrodd nad yw safbwynt Llywodraeth Cymru wedi newid ers fy llythyr ym mis Rhagfyr 2018 a'i fod yn cyd-fynd â chanllawiau'r Senedd.

Mae'r 'Canllaw i'r Broses ar gyfer Bil Aelod' gan y Senedd yn nodi mai, *"Cyfrifoldeb yr Aelod yw llunio'r Memorandwm Esboniadol, a chaiff gymorth gan dîm y Bil a'i Staff Cymorth"* (paragraff 47).

Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Pan fo Aelod sy'n Gyfrifol yn gofyn am ddata gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r data hynny ar yr amod eu bod yn cael eu cadw'n ganolog, eu bod ar gael yn hwylus ac nad oes unrhyw rwystrau i rannu'r data megis gofynion diogelu data.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ni ddisgwylir i swyddogion Llywodraeth Cymru gasglu data ychwanegol i ategu'r wybodaeth a gedwir na chynnal dadansoddiad pwrpasol mewn ymateb i gais gan Aelod sy'n Gyfrifol. Cyfrifoldeb yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yw gwneud y gwaith hwn neu ei gomisiynu.

Gwneir pob ymdrech gan Weinidogion Cymru i ymgysylltu â'r Aelodau hynny sy'n llwyddiannus ym malot deddfwriaethol y Llywydd.

Yn gywir,

**MARK DRAKEFORD**

**Y Pwyllgor Deisebau**

**—**

**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**—**

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd. wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur

Sesiwn dystiolaeth ar gyfer Deiseb P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Fel y gwyddoch, cymerodd y Pwyllgor Deisebau dystiolaeth ynghylch y ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 13 Tachwedd 2023. Roedd hon yn sesiwn addysgiadol a phryderus a oedd yn amlygu'r sefyllfa ariannol gynyddol anodd sy'n wynebu ysgolion ledled Cymru.

Clywsom gan lywodraethwyr a phenaethiaid, a rannodd yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth geisio cyflawni eu cyfrifoldebau statudol wrth wynebu toriadau mewn termau real yn y gyllideb, yn ogystal â chynyddu anghenion dysgu ac iechyd ychwanegol ymhlith eu disgyblion.

Gyda phwyllgorau polisi ar fin dechrau'r cylch craffu ar y gyllideb, roeddem o'r farn mai'r peth gorau y gallem ei wneud fel Pwyllgor Deisebau fyddai rhannu'r sesiwn hon gyda'r pwyllgorau hynny sydd ar fin edrych yn agosach ar gyllid addysg. Credwn y byddai'r dystiolaeth a gawsom yn amhrisiadwy i'ch pwyllgor.

Roeddem yn gwerthfawrogi'r cyfoeth o wybodaeth ac arbenigedd a rannwyd gan y panel a gododd nifer o faterion pryderus. Roedd y rhain yn cynnwys:

- pryderon am y model cyllido presennol ar gyfer ysgolion ac annhegwch y cyllid rhwng ysgolion;
- y nifer o ysgolion sy'n gosod cyllidebau diffyg gyda disgwyl mwy o wneud hynny y flwyddyn nesaf;
- yr analluogrwydd i gynnig contractau parhaol i staff cymorth addysgu;
- lleihau cefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol;
- yr effaith negyddol ar bynciau a gynigir neu weithgareddau ysgol; a
- effaith sylweddol ar iechyd a lles staff a llywodraethwyr ysgolion.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: https://busnes.senedd.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=41888&Opt=3.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor drwy’r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio’r tîm clercio: deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir

Jack Sargeant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/2216/23

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru

22 Tachwedd 2023

Annwyl Elin

**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 - Memorandwm Esboniadol Diwygiedig**

Mae Memorandwm Esboniadol Bil Amaethyddiaeth (Cymru) wedi'i newid er mwyn adlewyrchu'r Bil fel y'i diwygiwyd yn y Cyfnod Adrodd ac fel y'i deddfwyd. Rwy'n amgáu fersiynau terfynol o'r dogfennau hyn er gwybodaeth, a byddwn yn ddiolchgar pe gellir cyhoeddi'r rhain ar dudalen we'r Senedd sy'n ymwneud â'r Ddeddf.

**<u>Gwelliant Cyfnod Adrodd</u>**

**Pŵer Gweinidogion Cymru i ddarparu cymorth:** Mae'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu gwelliant 1 y Llywodraeth i adran 9 (3) a (4). Mae'n darparu enghreifftiau o feini prawf y gallai fod angen eu bodloni er mwyn i berson fod yn gymwys am gymorth. Mae'n disodli adran 9(3) o'r Bil, a fewnosodwyd fel gwelliant 55 yng Nghyfnod 3 (gweler Rhan 1, Pennod 3, paragraff 3.128-3.131 a'r Nodiadau Esboniadol).

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn a'r dogfennau amgaeedig at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Cofion

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

29 Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Gofynnodd y Pwyllgor imi a fyddai'n ofynnol cael deddfwriaeth sylfaenol er mwyn newid swm y grant cynnal refeniw ar gyfer awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn.

Nodir y brif sail statudol yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddf 1988) (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003). Mae Deddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud penderfyniad ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan nodi cyfanswm y grant cynnal refeniw am y flwyddyn honno ar gyfer yr awdurdodau sy'n derbyn a'r cyrff penodedig, a swm y grant y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu ei dalu i bob derbynnydd. Dyma sydd i'w cael yn yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi sut y bydd ardrethi annomestig yn cael eu dosbarthu i'r cynghorau. Rhaid i'r adroddiad gael ei gymeradwyo gan y Senedd bob blwyddyn. Mae'r adroddiad ar gyfer 2023-2024 i'w weld yma: Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol 2023-24 (llyw.cymru)

Er nad oes unrhyw beth yn y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru yn benodol rhag gwneud Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig i leihau'r grant cynnal refeniw yn gyffredinol, nid yw Deddf 1988 yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu iddynt wneud hynny ychwaith. Pe bai'r ddeddfwrfa yn bwriadu caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau o'r fath, gellid dadlau y byddai wedi cynnwys darpariaethau penodol – tebyg i adran 86A sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru dalu grant ychwanegol wedi i'r Senedd gymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol – yn Neddf 1988. Pe bai'r Gweinidogion, er gwaethaf hynny, yn benderfynol o gyhoeddi Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol diwygiedig, byddai angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ail Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol a byddai angen i'r Senedd bleidleisio dros ei ddiwygio.

Mewn perthynas â'r uchod, trafodwyd hefyd yn y Pwyllgor a allai'r awdurdodau lleol osod treth gyngor atodol neu uwch. Nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol sy'n galluogi'r awdurdodau sy'n derbyn i ail-filio talwyr y dreth gyngor am swm uwch o ganlyniad i ail-gyfrifo gofynion y gyllideb yn dilyn ad-daliad o'r grant cynnal refeniw.

Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i newid y trefniadau hyn.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-3057-23

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

1 Rhagfyr 2023

Annwyl Peredur,

Diolch am Adroddiad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â Bil Seilwaith (Cymru), a gyhoeddwyd ar 24 Tachwedd 2023.

Gweler fy ymatebion i'r set o argymhellion yn yr adroddiad yn Atodiad 1. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad er gwybodaeth.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad 1

## Bil Seilwaith (Cymru)
## Ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor Cyllid

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y papur methodoleg a ddarparwyd mewn perthynas â'r Bil hwn yn fodel arfer da ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnwys manylion o'r fath, a ddefnyddir i lywio'r amcangyfrifon cost sy'n deillio o bob Bil, o fewn Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, yn hytrach nag fel dogfennau ar wahân, fel mater o egwyddor.**

Rwy'n derbyn egwyddor yr argymhelliad hwn. Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ystyried yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r papur methodoleg sy'n cyd-fynd ag ef a'i gasgliad fod y cynnwys yn fodel arfer da. Mae'r argymhelliad wedi'i rannu â swyddogion yn Nhrysorlys Cymru sy'n goruchwylio proses yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae'r Papur Methodoleg yn ychwanegu at yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy ddarparu'r gwaith cyfrifo manwl sy'n sail i'r costau a'r arbedion ar gyfer y pedwar opsiwn a amlinellir. Oherwydd hyd a lled y gwaith cyfrifo manwl sy'n llywio costau ac arbedion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, credwn mai'r peth gorau ar gyfer y Bil hwn oedd rhoi'r gwaith hwn mewn Papur Methodoleg ar wahân. Penderfynwyd gwneud hyn er mwyn lleihau hyd a chymhlethdod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'i gwneud yn bosibl iddo ganolbwyntio ar ffigurau allweddol a'r cyfiawnhad drostynt.

O ran Biliau yn y dyfodol, byddwn yn ystyried y ffordd fwyaf priodol a thryloyw o gyflwyno'r costau a'r manteision fesul achos. Yn dibynnu ar natur y Bil ac ar gymhlethdod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gall fod yn bosibl cynnwys yr holl wybodaeth yn y prif asesiad. Fodd bynnag, nid oes bwriad i ymrwymo i hyn ar gyfer pob Bil yn y dyfodol. Mewn rhai achosion, efallai y byddem yn dewis tynnu rhai o'r tybiaethau a'r cyfrifiadau manwl o'r prif asesiad a chynnwys y wybodaeth honno mewn atodiad i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol os credir y bydd hynny'n gwneud yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn haws ei ddeall i'r darllenydd cyffredinol.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud y canlynol a bod y wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2:**

- **gwneud gwaith modelu pellach i nodi'r costau a'r manteision i gymunedau a/neu bartïon â diddordeb sy'n deillio o'r Bil. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys dadansoddiad i ddangos yr ystod bosibl o gostau a manteision a allai godi; a**
- **darparu enghreifftiau neu ragor o wybodaeth am gyfranogiad y gymuned, sut mae hynny'n gweithio ar hyn o bryd, pwy sy'n cymryd rhan a sut y gallai newid o ganlyniad i'r Bil.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol.

Rwy'n gwrthod rhan gyntaf yr argymhelliad hwn y dylid gwneud gwaith modelu pellach i nodi costau a manteision i gymunedau a phartïon eraill sy'n deillio o'r Bil. Bydd y costau i gymunedau yn amrywio'n fawr yn dibynnu ar bob math o gynllun datblygu ac felly bydd yn amhosibl eu mesur yn fanwl gywir. Bydd y gost yn dibynnu ar natur, maint a lleoliad pob cynllun yn y dyfodol, yn ogystal â hyd a lled diddordeb yr unigolion yn y cynlluniau hynny, i ba raddau y maent yn dymuno mynegi eu barn, a'r gost yr eir iddynt i sicrhau bod y safbwyntiau hyn yn hysbys.  O gofio'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth hyn, yn ein barn ni, ni fyddai modd modelu'r costau hyn yn y dyfodol mewn ffordd gadarn ac ystyrlon.

Fodd bynnag, rwy'n derbyn y gallwn roi rhagor o wybodaeth o ran sut y gall cymunedau ymgysylltu ar geisiadau seilwaith ar hyn o bryd a'r hyn y bydd y Bil yn ei olygu i gymunedau sy'n cymryd rhan mewn ceisiadau seilwaith o dan broses gydsynio newydd. Byddwn yn diweddaru'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drwy roi rhagor o wybodaeth am y manteision i gymunedau sy'n deillio o'r gyfundrefn gydsynio newydd o'i chymharu â phrosesau cyfredol. Felly, rwy'n derbyn ail ran yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith o ran y buddion ariannol sy'n deillio o broses gydsynio symlach. Dylid cynnwys y wybodaeth hon mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, ar ôl Cyfnod 2.**

Nid wyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys costau ar gyfer pob elfen o'r broses gydsynio lle y gallwn wneud hynny. Mae llawer o'r costau hynny'n dangos bod manteision ariannol clir i randdeiliaid o ganlyniad i'r gyfundrefn gydsynio newydd. Er enghraifft, lle rydym wedi costio'r arbedion i ymgyngoreion statudol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o gymharu â phrosesau cyfredol, mae'n amlwg bod mantais cost glir. O ran y manteision eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi mynd ati i restru'r rhai sydd o natur ansoddol a disgrifiadol, nad yw'n bosibl priodoli cost iddynt ac maent wedi cael eu rhestru er cyflawnder.

Rwyf wedi ymhelaethu ar nifer o enghreifftiau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol lle nad ydym wedi darparu ffigur ariannol i'r manteision a ddisgrifiwyd.

<u>Cymhlethdod</u>
Rydym wedi nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai un o fanteision cyfundrefn gydsynio newydd fyddai lleihau cymhlethdod. Bydd hyn yn arwain at sefyllfa lle mae rhanddeiliaid ond yn ymgysylltu ag un gyfundrefn gydsynio yn hytrach na nifer ohonynt ar gyfer prosiectau seilwaith. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws ac yn llai beichus i ddatblygwyr gyflwyno'u ceisiadau ac i eraill felly roi sylwadau ar un cynllun. Mae hynny'n fantais glir, ond nid yw'n un y mae hawdd ei mesur. Fodd bynnag, yr hyn rydym wedi'i wneud yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yw darparu costau ar gymhlethdod lle y bo modd. Mae hyn yn cynnwys y costau i ddatblygwyr am gyflwyno ceisiadau drwy'r systemau cydsynio niferus sy'n bodoli ar hyn o bryd, o gymharu â'r costau am gyflwyno ceisiadau o dan y gyfundrefn sengl newydd. Nid oes modd mesur materion ehangach o ran cymhlethdod y gellir eu hystyried yn un o fanteision proses gydsynio newydd.

Proses hyblyg

Enghraifft arall yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol lle rydym wedi nodi y byddai cyfundrefn gydsynio newydd yn cynnig mantais yw drwy ddarparu proses fwy hyblyg na'r un sy'n bodoli ar hyn o bryd. Byddai hyn o ran sicrhau y caiff datblygiadau sy'n llai o faint neu sy'n cael llai o effaith eu cydsynio drwy system fwy cymesur. Mae hefyd yn ein galluogi i gyfeirio cynlluniau newydd unigol i'w hystyried o dan y broses hon, ond hefyd lle y gall fod angen nodi math newydd o gynllun seilwaith o dan y broses hon yn y dyfodol oherwydd technolegau sy'n cael eu datblygu.

Manteision yw'r rhain a fydd yn diogelu'r gwaith o ystyried cynlluniau seilwaith gan Weinidogion Cymru yn y dyfodol. Ni allwn ymhelaethu ar y materion hyn o ran mantais cost benodol gan fod llawer o newidynnau. Er enghraifft, i ba raddau y gall technolegau yn y dyfodol arwain at fathau penodol o brosiectau yn dod o dan y gyfundrefn newydd yn y dyfodol.

Fodd bynnag, yng nghyd-destun ceisiadau llai o faint ac sy'n cael llai o effaith y byddai'n fwy priodol penderfynu arnynt yn lleol, rydym wedi asesu'r rheini ar sail data hanesyddol. Rydym wedi edrych ar geisiadau hanesyddol ac wedi costio'r broses y byddent yn debygol o gael eu penderfynu drwyddi. Caiff y costau hynny eu hymgorffori o dan amrywiol gostau rhanddeiliaid a restrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Felly, o ran hyblygrwydd, mae hyn yn fwy na mantais cost ac rydym wedi darparu ffigurau ar arbedion cost i randdeiliaid yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hyd y gellir.

Arbed adnoddau ar raddfa ehangach

Rydym wedi nodi ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y byddai cyfundrefn gydsynio newydd yn cynnig manteision mewn perthynas ag arbed adnoddau i randdeiliaid a thrwy leihau achosion o ddyblygu. Er enghraifft, bydd un broses yn hytrach na nifer o brosesau yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o ran sut i gymryd rhan mewn prosiect seilwaith, ond ar hyn o bryd, mae'n bosibl nad yw aelodau'r cyhoedd yn ymwybodol o sut i gymryd rhan mewn prosesau cydsynio penodol lle mae canllawiau cyfyngedig ar gael o bosibl. Nid oes modd mesur hyn am y rhesymau a nodwyd gennyf mewn ymateb i argymhelliad dau.

Fodd bynnag, o ran elfen cost y mater hwn, rydym unwaith eto wedi gwneud hyn lle rydym yn gwybod beth fydd y costau i randdeiliaid gwahanol (megis ymgyngoreion statudol) am gymryd rhan mewn nifer o gyfundrefnau cyfredol a chymharu'r costau hynny â'r costau tebygol am gymryd rhan mewn un broses lle na fyddai unrhyw ymwneud yn cael ei ddyblygu.

Rwyf yn fodlon cynnwys rhagor o wybodaeth yn adran manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i sicrhau ei fod yn rhoi cyfiawnhad clir dros y dull gweithredu a fabwysiadwyd lle nad oes unrhyw gostau wedi'u darparu.

**Argymhelliad 4. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am sut y bydd ffioedd yn amrywio o dan y drefn newydd, o gymharu â’r drefn bresennol, ac effaith hyn ar randdeiliaid perthnasol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r ffioedd cyfredol am geisiadau seilwaith yn seiliedig ar yr hyn a ragnodwyd mewn rheoliadau a chanllawiau statudol. Mae rhai yn gweithredu ar sail adennill costau'n llawn ond ni fydd eraill yn gweithredu felly. Er enghraifft, mae ffioedd am 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' yn gweithredu ar sail adennill costau'n llawn, ond nid yw ffioedd am Orchmynion Harbwr yn adennill costau llawn y broses o benderfynu arnynt. Felly, ar hyn o bryd, ni chaiff holl gostau'r broses o benderfynu ar geisiadau seilwaith eu hadennill oddi wrth ymgeiswyr.

Mae Adran 121 yn darparu ar gyfer ffioedd am gyflawni swyddogaethau a gwasanaethau cydsynio seilwaith. O dan y pŵer hwn, disgwylir y bydd y gyfundrefn newydd yn caniatáu ar gyfer ffioedd cyfradd sefydlog ac amrywiadwy er mwyn adennill costau'n llawn ar bob math o geisiadau seilwaith. O ran ffioedd sefydlog, codir y rheini am elfennau o'r broses a fydd yn gofyn am yr un lefel o fewnbwn ac adnoddau bob amser. Felly, drwy bennu ffioedd safonol ar yr elfennau hynny bydd modd cael cysondeb a sicrwydd. Yr elfennau o'r gyfundrefn a fydd yn caniatáu ar gyfer ffioedd amrywiadwy fydd yr elfennau hynny o'r broses a fydd yn amrywio ar gyfer pob cais, er enghraifft y weithdrefn archwilio. Disgwylir y byddwn yn cyflwyno ffioedd amrywiadwy ar ffurf cyfradd ddyddiol, a fydd yn helpu i reoli'r costau ac yn sicrhau mai dim ond tâl am yr amser a dreuliwyd yn archwilio ac yn penderfynu ar eu cais a fydd yn cael ei godi ar ymgeiswyr. Felly, bydd y trefniadau ffioedd newydd yn arwain at system decach o godi ffioedd lle y codir union faint y costau am benderfynu ar brosiect seilwaith sylweddol ar ymgeiswyr.

O ran yr effaith ar randdeiliaid perthnasol, i ddatblygwyr neu ymgeiswyr, gallai arwain at newid yn y ffioedd am geisiadau penodol i sicrhau y caiff y costau llawn eu cwmpasu.

Yn ogystal, bydd y gyfundrefn newydd yn esgor ar newidiadau ehangach i'r system ffioedd. Bydd yn rhaid i ddatblygwyr dalu un set o ffioedd bellach, yn hytrach na'r ffioedd niferus lle y byddai angen nifer o gydsyniadau ar gynllun ar hyn o bryd. Bydd yr arbedion effeithlonrwydd hyn o ganlyniad i broses symlach yn arwain at system ffioedd sy'n adlewyrchu'n well y costau sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar brosiectau yn gyffredinol, yn hytrach na dyblygu costau. O dan y system newydd, disgwylir i ddatblygwyr gael eu hanfonebu am daliadau ar sail gynyddrannol ar gamau gwahanol o'r broses benderfynu. Bydd hyn yn cynnig mwy o sicrwydd ac eglurder o ran y gwasanaethau y maent yn talu amdanynt, yn hytrach na thalu'r ffi lawn ar un tro lle y byddent yn talu am wasanaethau nad ydynt yn eu cael ar hyn o bryd.

O ran ymgyngoreion statudol, nid yw'r cyfundrefnau cydsynio presennol yn caniatáu iddynt adennill costau am eu mewnbwn ar geisiadau seilwaith. O dan Adran 121 gall ymgyngoreion gael eu talu am y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn y broses gydsynio. Bydd hyn yn golygu bod modd iddynt adennill eu hadnoddau am eu mewnbwn ar geisiadau seilwaith drwy ffioedd ymgeiswyr.

O ran awdurdodau lleol, unwaith eto, nid ydynt yn cael eu had-dalu'n llawn am eu mewnbwn ar geisiadau seilwaith drwy'r systemau cydsynio presennol. Ar hyn o bryd, dim ond ffi o tua £8,000 am baratoi Adroddiadau Effaith Leol i lywio'r penderfyniad ar 'Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' y maent yn ei chael. Yn yr un modd, o dan Adran 121 gall ymgyngoreion sy'n awdurdodau lleol gael eu talu am y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn y broses gydsynio.

Bydd unrhyw newidiadau penodol i daliadau ffioedd yn destun gwaith ac ymgynghori pellach, a bydd y manylion yn cael eu nodi yn y rheoliadau.

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses sy'n gysylltiedig â'r trothwy dewisol, gan gynnwys a allai'r hyblygrwydd hwn arwain at rywfaint o amrywioldeb yn yr effeithlonrwydd a amlinellir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. O ran y ceisiadau hynny sy'n dod o dan y trothwyon ar gyfer 'ceisiadau cyfeiriedig', gall yr ymgeisydd ofyn i'w gais gael ei benderfynu naill ai gan Weinidogion Cymru o dan y broses gydsynio newydd neu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Yn y pen draw, Gweinidogion Cymru fydd yn gyfrifol am wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth, a hynny ar sail natur y cais a'r materion a godir ganddo, p'un ai prosiect seilwaith arwyddocaol i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru ydyw ai peidio.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol eisoes wedi amcangyfrif y costau a fydd yn codi yn y dyfodol o ganlyniad i gynnwys 'ceisiadau cyfeiriedig' yn y gwaith modelu. Cyflawnwyd hyn drwy asesu ceisiadau hanesyddol a fyddai'n dod o dan y broses honno ac ai'r awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru fyddai'n penderfynu arnynt, a hynny ar sail eu maint a'u heffaith.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod unrhyw adolygiad ôl-weithredu yn asesu costau a buddion cyffredinol y drefn gydsynio newydd ac a yw hyn yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gallaf gadarnhau y bydd y prosiect gwerthuso'n cael ei gyflawni o fewn y pum mlynedd gyntaf ar ôl i'r gyfundrefn newydd gael ei rhoi ar waith drwy is-ddeddfwriaeth. Bydd y gwaith hwn yn gwerthuso'r ffordd y mae'r gyfundrefn gydsynio newydd yn gweithredu, gan gynnwys y costau a'r manteision i randdeiliaid gwahanol. Bydd y gyfundrefn newydd hefyd yn cael ei monitro yn flynyddol, lle bydd perfformiad o ran cydymffurfio â'r terfynau amser statudol a nodwyd yn y Bil ar gyfer penderfynu ar geisiadau'n cael eu nodi mewn adroddiad blynyddol a osodir gerbron y Senedd.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

14Tachwedd 2023

Annwyl Peredur,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynghylch yr adolygiad o'r datganiad o egwyddorion ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (DFBs).

Rwyf yn nodi'r adborth yr ydych wedi'i gael ynghylch yr wybodaeth ariannol yn y llythyr blynyddol yr wyf yn ei ddarparu i'r Pwyllgor i gefnogi blaengynllunio ar gyfer y cyrff hynny. Fel y dywedwch, nid yw sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru ei hun y tu hwnt i'r flwyddyn bresennol yn glir yn aml, felly nid oes modd darparu canllawiau manwl bob amser ar ragolygon cyllidol yn y dyfodol. Er hynny, rwyf yn hapus i ystyried a oes modd darparu gwybodaeth ychwanegol tymor hwy os byddai hynny'n ddefnyddiol, gan edrych ar wahanol senarios cyllido posibl yn y dyfodol.

Rwyf eisoes yn darparu Datganiad Ysgrifenedig yn dilyn Datganiad Hydref Llywodraeth y DU, sy'n nodi'r goblygiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae Adroddiad y Prif Economegydd, a gyhoeddir ochr yn ochr â'n Cyllideb Ddrafft, yn cynnwys gwybodaeth am ragolygon cyllidol tymor canolig. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth Datganiad Llywodraeth y DU ar gyfer yr Hydref a'r rhagolygon diweddaraf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Cyhoeddir cyllidebau atodol fel mater o drefn ym mis Mehefin a mis Chwefror bob blwyddyn ariannol. Gall yr union amseriadau ddibynnu ar galendr y Senedd o ran pryd y mae toriad yn disgyn a chyhoeddi Prif Amcangyfrifon ac Atodol Llywodraeth y DU. Yn ymarferol, hysbysir y DFBs am ddyddiadau cyllidebau atodol pan fyddaf yn hysbysu'r Pwyllgor. Er hynny, at y dyfodol, byddaf yn anfon copi o'm llythyr at y Pwyllgor at y DFBs i ffurfioli ein cyfathrebiadau am y dyddiadau hynny.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon